

Set o 30 o gardiau i sbarduno sgiliau llafaredd
dysgwyr Cyfnod Allweddol 2

Llun a Thrin



 Peniarth

Canllaw ymarferwyr

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys 30 o gardiau i sbarduno sgiliau llafaredd dysgwyr Cyfnod Allweddol 2. Mae'r adnodd yn ateb targedau Rhaglen Astudio Llafaredd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gyflwyno gwybodaeth, syniadau a barn, gwrando, cydweithio a thrafod mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn ogystal, mae gweithgareddau i atgyfnerthu'r gwaith ar gael ar wefan Hwb.

Bwriad y ddelwedd ar dudalen flaen y cardiau yw rhoi cyfle i'r dysgwyr ddisgrifio'r hyn a welant gan ddehongli, defnyddio'r dychymyg a mynegi barn lle bo'n briodol. Nid oes un dehongliad cywir ond ceir cyfle yma i feddwl am wahanol bosibiliadau a chyfle hefyd i'r dysgwyr roi rhesymau dros eu dehongliadau ac i drafod ymhlith ei gilydd ynglŷn â'r dehongliad gorau. Ceir cyfleoedd o fewn y pecyn i gymharu rhai delweddau er mwyn arwain y trafod i gyfeiriadau newydd.

Ar gefn y cardiau, ceir syniadau posibl y gall athrawon a chynorthwyywyr eu defnyddio wrth iddynt holi'r dysgwyr am y llun ac ennyn trafodaeth. Mae cwestiynau trafod, syniadau am weithgareddau a rhestr eirfa yno ond awgrymiadau yn unig yw'r rhain ac mae'n bwysig bod y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddilyn eu trywydd eu hunain.

O fewn y pecyn cyfan, mae amrywiaeth o syniadau a gweithgareddau. Ceir cyfleoedd i drafod mewn gwahanol gyweiriau iaith — ffurfiol ac anffurfiol — gan ddibynnu ar y cyd-destun. Hefyd, o ystyried cynnwys y pecyn cyflawn, gwelir bod y gweithgareddau'n cwmpasu'r ystod gallu'n llawn, gyda rhai gweithgareddau ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sylfaenol, ac eraill yn fwy addas ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog.

TRAFOD:
Cwestiynau sy'n trin a thrafod
beth sy'n weledol amlwg, er
mwyn cychwyn trafodaeth

Trafod

1. Beth sy'n digwydd yn y llun?
2. Beth sydd i'w weld yn y cefndir?
3. Osgrifoch beth mae'r bodd yn ei wng.
4. Pwy sydd yn y llun - oedolion neu blant?
5. Pa dymor o'r fwyddyn ydy hi?

Meddwl

1. Pam mae'r bodd yn y llun wedi eu gwsgo fel hyn?
2. Sut mae'r ddau berson yn teimlo?
3. Ydy'r llun wedi ei dynnu yng Nghymru?
4. Sut bodd ydy mynd ar weithio uchel fel yr un yn y llun, tybed?

Meddylwch am ddi anoddau i ddiogroffr profiad.

5. Cymharwch eich anoddau chi gydag anoddau anodau eraill y grŵp.
6. Ydy mynd ar weithio wib yn beryglus?
7. Pam mae'r bodd yn deiml gwerud hyn?
8. Meddylwch am ddi addas ar gyfer y llun. Pam mae'r teitl yn addas?
9. Ymchwilwch i'r weithio wib hiraf yn y byd. Beth sy'n arbennig amdani? Hoffech chi fynd ati?

Gweithgareddau

1. Beth mae'r ddau berson hyn yn ei ddawed wrth ei gilydd? Paratowch sgwrs rhwng y ddau ohonyn nhw.
2. Chwiliwch am wybodaeth am weithio wib yng Nghymru a gwneud daflen andani. Rhaid i chi:
 - ddweud ble mae'r gancoffan
 - rhoi gwybodaeth am y weithio wib (i.e. pa mor uchel, pa mor hir ac ati)
 - ddisgrifio beth arall sydd i'w wneud yn y gancoffan.

Cofrethwch gwybodaeth map a lluniau.

Geirfa

anyw agored	gwilio	helmed
camp, campau	strapiau	harnais
gwneud wib	menig	Borweddol
y weithio	padiau	hongian

GWEITHGAREDDAU:
Syniadau ar gyfer
gweithgareddau y gellid eu
gwneud gyda'r dysgwyr, ar
ôl trafod, a gwaith meddwl
yn ddyfnach

MEDDWL:
Cwestiynau sy'n
treiddio'n ddyfnach
i'r hyn sy'n amlwg

GEIRFA:
Enghreifftiau o eiriau
sy'n debygol o godi
mewn trafodaeth
am y ddelwedd

SBARDUN:
Bocs atgoffa ar gyfer athrawon, i'w cynorthwyo
gyda'r cwestiynau i i'w gofyn i ddysgwyr





Trafod

1. Beth sy'n digwydd yn y llun?
2. Tua faint ydy oed y merched?
3. Ble maen nhw?
4. Pa fath o ardal ydy hi?
5. Pa adeg o'r flwyddyn ydy hi? Chwiliwch am gliwiau yn y llun.
6. Beth ydy'ch barn chi am y wisg chwaraeon?



Gweithgareddau

1. Y gadair goch
Beth am holi un o'r chwaraewyr yn y llun?

Pwy ...? Beth ...? Sut ...?
Pam ...? Oes ...? Ydy ...?
2. Cymharwch y llun hwn â'r llun o blant yn chwarae pêl-droed yn y fforest law. Sut mae'r lluniau'n debyg a sut maen nhw'n wahanol?



Meddwl

1. Pwy ydy'r merched yn y llun?
 - Beth ydy'r berthynas rhyngddyn nhw?
 - Pa fath o dîm ydy hwn (e.e. tîm ysgol / tîm pentref)?
 - Pa ferch ydy capten y tîm, tybed?
2. Beth sydd wedi digwydd?
3. Beth fydd yn digwydd nesaf?
4. Sut mae'r merched yn teimlo? Chwiliwch am gliwiau yn y llun.
5. Meddylwch am deitl addas ar gyfer y llun. Pam mae'r teitl yn addas?
6. Ydy pêl-droed merched yn cael digon o sylw? Sut mae cael mwy o bobl i gefnogi merched yn chwarae pêl-droed?



Geirfa

buddugol
buddugoliaeth
wedi cynhyrfu
wrth eu bodd
dathlu

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e. Pam rwyd ti'n dweud hynny? Pam rydych chi'n dweud hynny? Rho resymau dros dy ateb. Rhewch resymau dros eich ateb.





Trafod

1. Disgrifiwch y llun:
 - dillad y plant
 - gwallt y plant
 - oed y plant.
2. Beth sy'n digwydd yn y llun?
3. Meddyliwch am dri ansoddair i ddisgrifio'r plant.



Gweithgareddau

Chwaraewch rôl y plant yn y llun. Cyn dechrau, meddyliwch am syniadau.

Beth maen nhw'n ei ddweud wrth ei gilydd, tybed?

Cofiwch siarad yn glir ac edrych ar eich gilydd wrth siarad.

Perfformiwch eich gwaith i grŵp arall ac yna gwyliwch berfformiad grŵp arall o'r dosbarth. Gwerthuswch berfformiadau eich gilydd.



Meddwl

1. Beth mae'r plant yn ei ddweud wrth ei gilydd, tybed?
2. Beth sydd wedi digwydd yn ystod y dydd cyn i'r llun gael ei dynnu?
3. Beth fydd yn digwydd nesaf?
4. Ydych chi'n meddwl bod y plant hyn yn bwllo rhywun? Pam rydych chi'n dweud hyn?



Geirfa

cyfrinach
cweryla
ffraeo

sibrwd
streipiog
sbeitlyd

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwyd ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.





Trafod

1. Beth sy'n digwydd yn y llun?
2. Beth sydd i'w weld yn y cefndir?
3. Disgrifiwch beth mae'r bobl yn ei wisgo.
4. Pwy sydd yn y llun – oedolion neu blant?
5. Pa dymor o'r flwyddyn ydy hi?



Gweithgareddau

1. Beth mae'r ddau berson hyn yn ei ddweud wrth ei gilydd? Paratowch sgwrs rhwng y ddau ohonyn nhw.
2. Chwiliwch am wybodaeth am wifren wib yng Nghymru a gnewch daflen amdani. Rhaid i chi:
 - ddweud ble mae'r ganolfan
 - rhoi gwybodaeth am y wifren wib (e.e. pa mor uchel, pa mor hir ac ati)
 - disgrifio beth arall sydd i'w wneud yn y ganolfan.
 Cofiwch gynnwys map a lluniau.

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwyd ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.



Meddwl

1. Pam mae'r bobl yn y llun wedi eu gwisgo fel hyn?
2. Sut mae'r ddau berson yn teimlo?
3. Ydy'r llun wedi ei dynnu yng Nghymru?
4. Sut brofiad ydy mynd ar wifren wib uchel fel yr un yn y llun, tybed? Meddyliwch am dri ansoddair i ddisgrifio'r profiad.
5. Cymharwch eich ansoddeiriau chi gydag ansoddeiriau aelodau eraill y grŵp.
6. Ydy mynd ar wifren wib yn beryglus?
7. Pam mae pobl yn dewis gwneud hyn?
8. Meddyliwch am deitl addas ar gyfer y llun. Pam mae'r teitl yn addas?
9. Ymchwilwch i'r wifren wib hiraf yn y byd. Beth sy'n arbennig amdani? Hoffech chi fynd arni?



Geirfa

awyr agored
camp, campau
gwifren wib
y wifren

gwibio
strapiau
menig
padiau

helmed
harnais
llorweddol
hongian





Trafod

1. Beth sydd yn y llun? Disgrifiwch:
 - y plant
 - ble maen nhw
 - y nwyddau ar y llawr
 - y cefndir.
2. Beth sydd wedi digwydd, tybed?
 - Lladrad?
 - Llifogydd?
 - Daeargryn?
 - Tswnami?
 - Corwynt?
 - Rhywbeth arall?



Gweithgareddau

Mae angen paratoi apêl teledu i godi arian i helpu'r bobl yn y llun. Chi ydy'r cyflwynydd. Dywedwch wrth y gwylwyr:

- beth yn union sydd wedi digwydd
- sut mae'r bobl yn dioddef
- sut gallan nhw, y gwylwyr, helpu
- sut i gyfrannu arian.

Cofiwch apelio at deimladau'r gwylwyr.

Yna, fel grŵp, trafodwch yr apêl teledu. Beth ydy'r pethau da? Oes modd gwella? Sut?



Meddwl

1. Meddyliwch am deitl ar gyfer y llun. Cymharwch y teitlau. Pa un ydy'ch hoff deitl chi? Pam?
2. Does dim oedolion yn y llun. Ble maen nhw? Sut maen nhw'n teimlo? Pam mae'r plant ar eu pen eu hunain? Ydych chi i gyd yn cytuno? Gwerthuswch syniadau eich gilydd.
3. Beth fydd yn digwydd nesaf yn yr ardal, tybed? Beth fydd yn digwydd i'r plant? Cymharwch eich syniadau. Pa un ydy'r syniad gorau? Pam rydych chi'n dweud hyn?



Geirfa

trychineb naturiol
corwynt
llifogydd

colledion
digartref
llygru

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwyf ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.





Trafod

1. Beth sy'n digwydd yn y llun?
2. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?
3. Pa ddillad neu offer diogelwch sydd gan y dyn a'r ci?
4. Sut mae'r tywydd yn y llun? Edrychwch yn ofalus ar y lliwiau am gliw.



Meddwl

1. Beth sydd wedi digwydd i'r person yn y dŵr?
2. Sut mae'n teimlo?
3. Sut daeth y bobl yn yr hofrennydd i wybod am y person?
4. Pwy sy'n achub y person? Ydyn nhw'n ddiogel?
5. Fyddech chi'n ymddiried mewn anifail i achub eich bywyd chi? Pam?



Gweithgareddau

1. Paratowch sgwrs rhwng y dyn sy'n sefyll tu allan i'r hofrennydd a'r person yn y môr.
2. Pan fyddwch chi'n mynd i chwarae neu nofio yn y môr, rhaid i chi fod yn ofalus iawn. Trafodwch sut gallwch chi geisio cadw'ch hunain yn ddiogel.



Geirfa

hofrennydd	achub	harnais
boddi	helmed	arnofio
peilot	dal yn dynn	cryf
taflu	offer	
achubwr	nofio	

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwyd ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.





Trafod

Disgrifiwch y llun yn ofalus:

- y person sy'n croesi'r ffordd:
 - dillad
 - oed
 - pryd a gwedd
 - beth mae e'n ei wneud
- y tŷ
- adeg y flwyddyn a'r tywydd
- y car
- y cefndir.



Meddwl

1. O ble mae'r plentyn yn dod, tybed?
2. I ble mae e'n mynd, tybed?
3. Mae'r plentyn ar y ffôn:
 - Â phwy mae e'n siarad?
 - Am beth maen nhw'n siarad?
4. Beth fydd yn digwydd nesaf, tybed?
 - y car yn stopio
 - damwain
 - rhywbeth arall.
5. Yn Honolulu, Hawaii, mae siarad ar y ffôn wrth groesi'r ffordd yn anghyfreithlon. Beth ydy'ch barn chi am hyn? Fyddai'n syniad da gwneud hyn yng Nghymru hefyd?



Gweithgareddau

1. Mae 500 o blant yn cael eu lladd ar ffyrdd y byd bob dydd. Trafodwch beth ddylech chi ei wneud i gadw'n ddiogel ar y ffordd fawr.
2. Mae'r gyrrwr yn y llun yn llwyddo i stopio'r car. Dydy'r plentyn ddim yn cael niwed. Mae'r gyrrwr a'r plentyn yn siarad. Beth maen nhw'n ei ddweud? Paratowch y sgwrs.



Geirfa

damwain	ffôn symudol
teledu	peryglus
lloeren	anghyfreithlon
clawdd / gwrych	

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e. Pam rwyd ti'n dweud hynny? Pam rydych chi'n dweud hynny? Rho resymau dros dy ateb. Rhwch resymau dros eich ateb.





Trafod

1. Disgrifiwch yr eliffant.
2. Beth mae'r eliffant yn ei wneud?
3. Disgrifiwch y plant, e.e. oed, dillad ac ati.
4. Ble maen nhw?
5. Ydyn nhw mewn gwlad boeth neu oer?
6. Beth maen nhw'n ei wneud?



Meddwl

1. Pam mae'r eliffant wedi cael ei beintio?
2. Mae'r llun yn dangos sut mae pobl mewn gwlad arbennig yn dathlu'r Flwyddyn Newydd. Sut maen nhw'n dathlu? (Edrychwch ar beth sydd yn nwylo rhai ohonyn nhw!)
3. Ydy hi'n iawn i wneud hyn i'r eliffant? Pam?
4. Sut mae'r plant yn teimlo yn eich barn chi?
5. Meddyliwch am deitl addas ar gyfer y llun. Pam mae'r teitl yn addas?



Gweithgareddau

Mae'r llun yn dangos gŵyl Songkran yng Ngwlad Thai – gŵyl i ddathlu'r Flwyddyn Newydd.

Cymharwch sut mae'r bobl hyn yn dathlu'r Flwyddyn Newydd a sut mae pobl mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Cymru, yn dathlu.



Geirfa

baneri
chwistrellu
dathlu

dathliad
gwn dŵr
yn wlyb sopen / yn wlyb diferu

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwy'ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.





Trafod

1. Beth mae'r plant yn ei wneud?
2. Disgrifiwch ble maen nhw.
3. Sut olwg sydd ar eu hwynebau nhw?
4. Tua faint ydy oed y plant yn y llun?
5. Beth maen nhw'n ei wisgo?
6. Meddyliwch am dri ansoddair i ddisgrifio'u dillad.



Meddwl

1. Pa adeg o'r flwyddyn ydy hi?
2. Pam mae'r ddau'n pwyntio, tybed?
3. Pam maen nhw'n gwisgo dillad sgleiniog?
4. Beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf yn eich barn chi? Trafodwch hyn mewn grŵp.
5. Meddyliwch am deitl da ar gyfer y llun. Pam mae'r teitl yn addas?



Gweithgareddau

1. Gyda'ch partner, chwaraewch rôl y ddau blentyn hyn. Siaradwch am beth rydych chi'n ei wneud, beth sy'n digwydd a beth fydd yn digwydd nesaf.
2. Eisteddwch gyda'r un partner mewn dwy gadair goch. Bydd gweddill y grŵp yn gofyn cwestiynau i chi am beth rydych chi wedi bod yn ei wneud, beth sydd wedi digwydd ac ati.



Geirfa

dillad arian	ffoil	sandalau
sgleiniog	yn llonydd	fflip-fflops
het arian gyda phig	yn ddisgwyllgar	yn y blaendir
miniog	sibrwd	yn y cefndir
pigog	yn dawel	


Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwyd ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.





Trafod

1. Beth sy'n digwydd yn y llun cyntaf? Beth sy'n cael ei losgi? Disgrifiwch y llun yn ofalus.
2. Disgrifiwch lun 2. Beth ydy gwaith y dyn yn yr ail lun? Beth mae'r bobl yn ei wneud?



Gweithgareddau

Mae potsiwr yn lladd eliffantod er mwyn gwerthu'r ifori yn yr ysgithrddannedd.

- Beth ydy'ch barn chi am hyn?
- Sut mae hyn yn mynd i effeithio ar eliffantod yn y tymor hir?

Trafodwch beth rydyn ni'n gallu ei wneud i sicrhau bod eliffantod yn cael bywyd da a diogel.



Meddwl

1. Pam maen nhw'n llosgi'r ysgithrddannedd, tybed?
2. Ble maen nhw yn yr ail lun, tybed? Pam rydych chi'n dweud hyn?
3. Pam mae'r dyn yn bwydo'r eliffant?
4. Mae'r ddau berson ar y dde yn yr ail lun yn holi'r person sy'n bwydo'r eliffant. Beth maen nhw'n ei ofyn iddo? Meddylwch am bum cwestiwn i'w gofyn.



Geirfa

gwarchodfa
potsio
ysgithrddannedd
coelcerth

amddifad
effeithiau
ifori

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwyd ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.





Trafod

1. Disgrifiwch y llun:
 - beth sydd ar y chwith
 - beth sydd ar y dde
 - y gwahanol fathau o adeiladau yn y llun.
2. Cymharwch ddwy ochr y wal:
 - Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol?
 - Pwy sy'n debygol o fyw yn y gwahanol adeiladau yn y llun?
3. Disgrifiwch fywyd y bobl sy'n debygol o fyw ar ddwy ochr y wal. Pa mor debyg neu wahanol fydden nhw?



Meddwl

1. Beth sydd yng nghanol y llun? Pam mae hi yno, tybed? Beth mae'n ceisio ei ddangos?
2. Pam mae cymaint o wahaniaeth rhwng bywyd y cyfoethog a'r tlawd yn ein byd ni?
 - Pwy sydd ar fai am yr holl dlodi?
 - Ddylen ni wneud mwy i helpu'r tlodion? Pam?
 - Beth allwn ni ei wneud?
3. Mae dros 80,000 o bobl yn byw yn y favela yn y llun hwn, yn São Paulo, Brasil. Dychmygwch fyw mewn lle tebyg.



Gweithgaredd

Dychmygwch eich bod yn aros yn yr adeilad ar y dde, neu yn y cartrefi ar y chwith. Meddyliwch am:

- pwy sydd yno gyda chi
- beth rydych chi'n ei wneud.

Ydych chi'n mynd i rywle?

- Ble?
- Pryd?
- Pam?

Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol?

Ysgrifennwch flog am y diwrnod, ac yna cymharwch eich profiadau gyda rhywun ysgrifennodd flog am aros ar ochr arall y wal.



Geirfa

adeilad aml-lawr	tlodi
dinas	moethusrwydd
cartrefi	cyfoeth
blaendir	wal
cefndir	mur

Gofynnwch am gymaint o fanylion â phosib bob tro, e.e.

Pam rwyd ti'n dweud hynny?

Pam rydych chi'n dweud hynny?

Rho resymau dros dy ateb.

Rhowch resymau dros eich ateb.

